

## **TROSEDDEG**

**Amser – 1.5 awr**

**Atebwch DRI chwestiwn**

---

1. Beth yw ystyr y term 'trosedd gasineb' yn eich barn chi? Beth sy'n ei hachosi a sut y gellid atal y math hwn o drosedd?
2. 'Dywedir bod carchar yn gwasanaethu pedwar diben: cosbi, atal, adsefydlu yn ogystal â diogelu'r cyhoedd. Ac eto, gyda chyfraddau aildroseddu oddeutu 50%, mae'n amlwg bod llawer yn dod allan o'r carchar yn teimlo eu bod heb gael eu cosbi, eu hatal na'u hadsefydlu, ac mae hyn yn rhoi'r cyhoedd mewn perygl o'r newydd.' ('Prisoner Ben', *The Guardian*, 21 Rhagfyr 2015)

Trafodwch y datganiad uchod gan awgrymu pa newidiadau y gellid eu gwneud i fynd i'r afael â'r broblem.

3. Mae troseddu yn ffenomen hynod gymhleth sy'n amrywio o ddiwylliant i ddiwylliant ac o gyfnod i gyfnod. Gall yr hyn sy'n gyfreithiol mewn un wlad fod yn anghyfreithlon mewn gwlad arall. Wrth i ddiwylliannau newid dros amser, mae ymddygiadau a fu unwaith yn dderbyniol yn cael eu troseddoli.

Gan gyfeirio at y datganiad uchod, rhowch enghreifftiau o weithgareddau sydd wedi cael eu troseddoli neu eu dad-droseddoli dros amser. Beth yw goblygiadau hyn wrth i ni geisio esbonio'r hyn sy'n achosi troseddu?

4. Pam y gallai rhai grwpiau o bobl (e.e. lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc) fod yn fwy tebygol o gael eu targedu gan yr heddlu? Yn eich ateb dylech gynnig ffyrdd posibl o ddatrys y problemau hyn.
5. Mae Keith Hayward (2002) wedi awgrymu bod troseddu 'yn cael ei bortreadu a'i farchnata i bobl ifanc fel symbol diwylliannol rhamantus, cyffrous, cŵl a ffasiynol'. Trafodwch y datganiad hwn, gan ddefnyddio enghreifftiau i ategu'ch ateb.
6. A ellir cyfiawnhau trin dynion a menywod yn wahanol o fewn y system cyfiawnder troseddol? Defnyddiwch enghreifftiau wrth ateb, lle bo modd.
7. Gwahaniaethwch rhwng y cysyniadau 'heddlu' a 'phlisma'. Pam y gallai'r gwahaniaeth hwn fod yn bwysig?